

## **Trawsgrifiad – Gweminar Canllawiau Gwrthfotig Lymffoedema a Llid yr Isgroen**

1

00:00:00,940 --> 00:00:04,480

[Trawsgrifiad a gynhyrchwyd yn awtomatig. Efallai bod golygiadau wedi'u gwneud er mwyn eglurder.]

Canllawiau Gwrthfotig Lymffoedema a Llid yr Isgroen

2

00:00:07,490 --> 00:00:12,080

Datblygwyd y Canllawiau Rhagnodi Gwrthfotigau ar gyfer Llid yr Isgroen a Lymffoedema fel

3

00:00:12,080 --> 00:00:16,490

cydweithrediad rhwng Lymffoedema Cymru a Grŵp Canllawiau Gwrthficrobaidd Cymru Gyfan.

4

00:00:16,940 --> 00:00:21,710

Ac unwaith y cytunwyd ar y canllawiau, cawsant eu cydnabod gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

5

00:00:22,580 --> 00:00:28,880

Nod y cydweithio hwn oedd hyrwyddo stiwardiaeth gwrthficrobaidd, lleihau ymwrthedd wrthficrobaidd,

6

00:00:29,270 --> 00:00:35,750

lleihau sgil-ffeithiau gwrthficrobaidd, ond yn bwysicaf oll i wella gofal a chanlyniadau cleifion.

7

00:00:36,800 --> 00:00:41,630

Mae'r cydweithrediad hwn yn parhau i ddatblygu gyda gwaith stiwardiaeth pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol,

8

00:00:42,020 --> 00:00:50,720

gan gynnwys partneriaethau â fferyllwyr gwrthficrobaidd a gofal sylfaenol i dargedu rhagnodi gwrthfotigau aciwt a phroffylactig yn y sector gofal sylfaenol.

9

00:00:52,220 --> 00:00:57,320

Felly, os byddwch chi'n dod ar draws unrhyw gleifion sydd angen gwrthfotigau ar gyfer llid yr isgroen ac rydych chi'n teimlo

10

00:00:57,320 --> 00:01:01,160

y byddent yn elwa o fewnbwn clinigol y Gwasanaeth Lymffoedema Cenedlaethol,

11

00:01:01,610 --> 00:01:06,410

yna anfonwch atgyfeiriad drwy Consultant Connect, sy'n gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio.

12

00:01:07,800 --> 00:01:15,000

Ac os hoffech chi gael gwybod mwy am weithio gyda Lymffoedema Cymru neu lechyd Cyhoeddus Cymru ar fentrau stiwardiaeth gwrthficrobaidd,

13

00:01:15,420 --> 00:01:19,710

yna cysylltwch â ni ar y cyfeiriadau e-bost a ddarperir ar ddechrau'r cyflwyniad hwn.

14

00:01:21,150 --> 00:01:27,570

Y gwrthfotig llinell gyntaf ar gyfer rhywun â llid yr isgroen ar gefndir o lymffoedema yw flucloxacillin

15

00:01:27,600 --> 00:01:33,480

500mg i 1g bedair gwaith y dydd am 7 i 14 diwrnod.

16

00:01:33,870 --> 00:01:38,729

Y rheswm dros drin yr haint am gyfnod hirach yw bod y rhai sydd a lymffoedema fel arfer yn cymryd

17

00:01:38,730 --> 00:01:43,050

ychydig yn hirach i ymateb i'r gwrthfotigau na rhywun heb lymffoedema.

18

00:01:43,710 --> 00:01:53,490

I'r rhai sydd ag alergedd i benisilin, mae clarithromycin 500mg ddwywaith y dydd, eto am 7 i 14 diwrnod, yn ddewis arall addas.

19

00:01:54,240 --> 00:01:58,080

Dim ond ar y cyd a thriniaethau eraill y mae gwrthfotigau'n gweithio'n dda hefyd,

20

00:01:58,260 --> 00:02:02,729

felly mae'n bwysig ystyried pethau fel lleddfu poen addas, gofal croen da,

21

00:02:02,730 --> 00:02:10,080

felly lleithio'r ardal yr effeithir arni yn rheolaidd, codi'r braich neu'r coes os yw llid yr isgroen yn effeithio ar braich/coes, cywasgiad,

22

00:02:10,080 --> 00:02:16,500

am yr un rheswm. Os yw rhywun yn dioddef dau neu fwy o achosion o lid yr isgroen mewn cyfnod o 12 mis,

23

00:02:16,770 --> 00:02:25,710

efallai y byddai hefyd yn werth ystyried a oes angen gwrthfotig proffylactig. A bydd hyn yn cael ei drafod ychydig yn ddiweddarach yn y cyflwyniad.

24

00:02:26,370 --> 00:02:31,260

Mae llid yr isgroen cymhleth, felly dyna lle mae baneri coch clinigol yn cael eu nodi,

25

00:02:31,620 --> 00:02:35,910

angen atgyfeiriad neu ystyriaeth briodol ar gyfer Therapi Gwrthficrobaidd Parenterol Cleifion Allanol (OPAT).

26

00:02:36,390 --> 00:02:39,000

Gall hyn fod naill ai o fewn yr ysbyty neu o fewn y gymuned.

27

00:02:39,900 --> 00:02:47,400

Mae hefyd yn bwysig nodi, gyda flucloxacillin hefyd, fod weithiau angen dosau uwch hefyd.

28

00:02:47,610 --> 00:02:56,310

Felly i'r rhai a allai fod yn y categori gordewdra gyda Mynegai Mâs y Corff (BMI) o 30 neu uwch, efallai y bydd angen dosau uwch o wrthfotigau ar y bobl hyn.

29

00:02:59,350 --> 00:03:04,390

Wrth ystyried defnyddio gwrthfotigau proffylactig, mae angen inni bwysu a mesur y risgiau yn erbyn y manteision,

30

00:03:04,750 --> 00:03:10,060

gan y dylai fod yn opsiwn tymor cymharol fyr tra bod ffactorau risg naill ai'n cael eu rheoli neu eu lleihau.

31

00:03:10,660 --> 00:03:16,570

Felly mae angen inni ystyried ffactorau risg cleifion i sicrhau ein bod yn cynyddu effeithiolrwydd gwrthfotigau proffylactig i'r eithaf,

32

00:03:16,840 --> 00:03:25,120

ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar y sleid. Os 'ydy' yw'r ateb i bob cwestiwn ynghylch ystyriaethau'r claf sydd wedi'i nodi yn y bocs cyntaf, yna gallwn ddefnyddio gwrthfotigau proffylactig.

33

00:03:25,660 --> 00:03:28,690

Y gwrthfotig llinell gyntaf yw phenoxymethylpenicillin

34

00:03:28,960 --> 00:03:32,860

neu os oes gan y claf alergedd i benisilin yna clarithromycin ydyw.

35

00:03:34,040 --> 00:03:41,320

Wrth ddefnyddio phenoxymethylpenicillin, mae angen inni ystyried BMI y claf i sicrhau bod y claf yn derbyn y dos priodol,

36

00:03:41,650 --> 00:03:46,610

gan fod angen dos uwch o phenoxymethylpenicillin ar y cleifion hynny sydd a BMI sy'n uwch na 33.

37

00:03:46,630 --> 00:03:55,980

Mae angen i ni adolygu effeithiolrwydd y proffylacsis gwrthfotig yn ystod y cwrs ac o leiaf ymhen tri mis, oherwydd, os nad yw'n gweithio,

38

00:03:56,000 --> 00:03:57,860

bydd angen ailasesu'r claf.

39

00:03:58,310 --> 00:04:05,480

Os yw'r claf yn gwneud cynnydd da, yna gellir parhau a'r cwrs am hyd at chwe mis ac os nad oes unrhyw achosion pellach,

40

00:04:05,660 --> 00:04:11,780

yna dylid rhoi'r gorau i'r gwrthfotig ar ôl chwe mis gan y dylai'r ffactorau risg fod o dan reolaeth dda o fewn y cyfnod hwn.

41

00:04:12,650 --> 00:04:17,690

Fodd bynnag, os bydd claf yn datblygu mwy o achosion o lid yr isgroen tra ar broffylacsis,

42

00:04:17,990 --> 00:04:25,160

yna mae angen eu hailasesu i benderfynu a oes unrhyw achosion newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg ar gyfer yr achosion newydd hyn o lid yr isgroen.

43

00:04:26,420 --> 00:04:34,820

Mae rôl i wrthfotigau achub ar gyfer y bobl hynny sydd mewn perygl arbennig o heintiau llid yr isgroen rheolaidd.

44

00:04:35,420 --> 00:04:40,730

Fel y gwyddom gyda'r cyflwr hwn, gall ddechrau'n gyflym a lledaenu'n gyflym, a all arwain at sepsis.

45

00:04:41,510 --> 00:04:47,270

Mae defnyddio gwrthfotigau achub, fel flucloxacillin a clarithromycin, yn sicrhau triniaeth amserol ac effeithiol,

46

00:04:47,570 --> 00:04:54,830

yn enwedig i'r rhai y mae eu symptomau'n dechrau ac yn lledaenu'n gyflym iawn, ac i'r rhai sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn flaenorol gyda llid yr isgroen.

47

00:04:55,430 --> 00:04:58,760

Fodd bynnag, ni fydd pob claf yn addas ar gyfer gwrthfotigau achub.

48

00:04:59,120 --> 00:05:03,200

Mae'n bwysig ystyried y risgiau yn erbyn y manteision o ragnodi'r rhain,

49

00:05:03,500 --> 00:05:10,010

a gallu'r claf i allu eu cymryd. Felly ffactorau fel a fyddant yn cael eu cymryd yn briodol ac yn gyfrifol?

50

00:05:10,310 --> 00:05:15,500

A fydd yr unigolyn yn gwybod pryd i'w cymryd? Ac a ydyn nhw'n gwybod pryd a sut i geisio cymorth meddygol os oes angen?

51

00:05:15,710 --> 00:05:22,700

Maent i gyd yn ffactorau pwysig i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid rhagnodi gwrthfotigau achub ai peidio. Bydd angen i unrhyw unigolion sy'n

52

00:05:22,700 --> 00:05:29,480

mynd ymlaen i gymryd gwrthfotigau achub ar gyfer achos o lid yr isgroen gael eu hailasesu gan y gwasanaeth

53

00:05:29,840 --> 00:05:35,870

Llid yr Isgroen a Lymffoedema. Bydd yn asesiad i sicrhau bod unrhyw ffactorau risg newydd neu sy'n dod i'r amlwg,

54

00:05:36,140 --> 00:05:40,760

yn cael eu lliniaru a'u trin i atal heintiau pellach.